# RHAGOLWG

## Gellir dod o hyd i ddogfennau ategol perthnasol dan "Busnes y Cynulliad" "Dogfennau a Osodwyd" sydd, fel arfer, yn cael eu gosod ar y wefan 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod llawn perthnasol.

## [Hysbyswyd gan y Trefnydd mewn datganiad i'r cynulliad Dydd Mawrth 16 Mai 2006]

**Dydd Mawrth 23 Mai a dydd Mercher 24 Mai 2006**

***Toriad hanner tymor 29 Mai – 2 Mehefin***

**Dydd Mawrth 6 Mehefin a dydd Mercher 7 Mehefin 2006**

**Dydd Mawrth 13 Mehefin a dydd Mercher 14 Mehefin 2006**

**<u>Dydd Mawrth 23 Mai 2006</u>**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Cymru) 2006 (20 munud)**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) 1988 er mwyn cynyddu symiau'r terfynau cyfalaf sy'n cael eu defnyddio i gyfrifo'r hawl i dreuliau teithio a pheidio â chodi tâl o dan y Rheoliadau hynny.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Iawndal Gwartheg (Cymru) 2006 (20 munud)**

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Iawndal Brwselosis a Thwbercwlosis (Cymru a Lloegr) 1978 a'r Gorchymyn Lewcosis Buchol Ensootig (Iawndal) 1980. Mae hefyd yn cyflwyno system iawndal fwy syml ar gyfer gwartheg sy'n cael eu lladd am eu bod yn dioddef o'r clefydau a ganlyn: TB mewn gwartheg, Brwselosis (clefyd sy'n cael ei achosi gan y bacteriwm *Brucella abortus*, sy'n gallu achosi clefyd o'r enw 'y dwymyn donnol' mewn pobl) a Lewcosis Buchol Ensootig (clefyd trosglwyddadwy sy'n cael ei achosi gan y lewcofeirws buchol, ac sy'n gallu cael ei drosglwyddo o'r fam i'r llo a rhwng y naill fuwch a'r llall, gan achosi lewcemia a nifer o diwmorau). (Bwriedir cyflwyno deddfwriaeth ar wahân er mwyn cyflwyno'r system newydd ar gyfer BSE, a bydd y ddeddfwriaeth honno yn dod i rym ar 14 Mehefin 2006). O dan y system hon, bydd tablau prisio yn cael eu defnyddio er mwyn penderfynu ar faint yr iawndal i'w dalu, a bydd y tablau hyn yn seiliedig ar y pris cyfartalog ar y farchnad ar gyfer categorïau o wartheg y penderfynir arnynt ymlaen llaw. Mae darpariaeth hefyd ar gyfer defnyddio prisiadau unigol, yn ôl disgresiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, os nad yw'r data ategol ar arwerthiannau yn ddigonol neu os nad yw ar gael ar gyfer categori penodol yn ystod unrhyw fis neu fisoedd penodol.

**Proposal to debate the following 3 items together but with separate votes (30 munud )**

- **The Planning (National Security Directions and Appointed Representatives) (Wales) Regulations 2006 under Standing Order 24.27(iv)**

- **The Planning (Listed Buildings, Conservation Areas and Hazardous Substances) (Amendments Relating to Crown Land) (Wales) Regulations 2006 under Standing Order 24.27(iv)**

- **The Town and Country Planning (Miscellaneous Amendments and Modifications relating to Crown Land) (Wales) Order 2006 under Standing Order 24.27(iv)**

The Instruments form part of a package of secondary legislation that will remove the Crown's exemption from the planning system. Crown exemption is a general principle that the Crown is not bound by any legislation unless the legislation says it is. The Town and Country Planning Act 1990 contains no such reference and so the Crown is exempt from planning control. The Planning and Compulsory Purchase Act 2004, however, provides for the removal of Crown Immunity in the planning system and makes special provision in relation to certain planning applications by or on behalf of the Crown and in respect of enforcement of planning control in relation to the Crown in England, Scotland and Wales. These provisions have not yet been commenced because a complex set of amendments to current secondary legislation, and some new secondary legislation, need to be in place before these provisions in the 2004 Act can be commenced.

- **Dadl am Ran 2 o Adolygiad Polisi'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar Anghenion Addysgol Arbennig (60 munud)**

**Dydd Mercher 24 Mai 2006**

- **Cynnig i ethol Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio (1 funud)**

- **Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**

- **Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (30 munud)**

- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 i Brif Weinidog Cymru (15 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 (Cychwyn) 2006 (20 munud)**

Bydd y Gorchymyn hwn yn cychwyn darpariaethau Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â thrafnidiaeth ac mae'n ei gwneud yn ofynnol iddo baratoi a chyhoeddi Strategaeth Trafnidiaeth i Gymru. Mae hefyd yn addasu'r system cynllunio trafnidiaeth leol ac yn galluogi'r Cynulliad i gyfarwyddo'r awdurdodau lleol mewn perthynas â chyflawni eu swyddogaethau trafnidiaeth ac i sefydlu drwy Orchymyn, os oes angen, un neu fwy o Gyd-awdurdodau Trafnidiaeth. Mae'r Cynulliad yn cael pwerau penodol i roi cymorth ariannol ar gyfer trafnidiaeth awyr ac i sicrhau bod gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu darparu. Yn olaf, mae'r Ddeddf yn rhoi'r grym i'r Cynulliad sefydlu Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus i Gymru.

- **Cynnig i gymeradwyo The Transport and Works (Applications and Objections Procedure) (England and Wales Rules 2006 o dan Reol Sefydlog 26 (20 munud )**

These Rules, which revise the Transport and Works (Applications and Objections Procedure) (England and Wales) Rules 2000, are designed to:

- make the process for considering Transport and Works Act 1992 (TWA) Order applications, and objections to them, more efficient and effective; and

- implement the amendments that have been made to the European Directive on Environmental Impact Assessments (EIA) by EC Directive 2003/35/EC.

- **Dadl am drefniadau'r Cynulliad i gydweithredu â busnesau o dan Reol Sefydlog 6.6 (60 munud)**

- **Y ddadl fer (30 munud)**

**<u>Dydd Mawrth 6 Mehefin 2006</u>**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cofrestru Prynwyr a Gwerthwyr Pysgod a Dynodi Safleoedd Arwerthu Pysgod (Cymru) 2006 (20 munud)**

Mae'r rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cofrestru a chadw cofnodion am y rhai sy'n ymwneud â gwerthu pysgod gwerthiant cyntaf (pysgod sy'n cael eu marchnata am y tro cyntaf) mewn arwerthiant, a'r rhai sy'n ymwneud â phrynu pysgod gwerthiant cyntaf yn uniongyrchol o gychod pysgota neu eu hasiantiaid, a dynodi safleoedd arwerthu yng Nghymru.

- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (20 munud)**

- **Dadl wedi'i henwebu gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (45 munud)**

- **Dadl am ddiogelwch staff y sector cyhoeddus (60 munud)**

**Dydd Mercher 7 Mehefin 2006**

- **Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (30 munud)**

- **Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (30 munud)**

- **Cwestiynau i Jane Hutt, y Trefnydd, yn unol â Rheol Sefydlog 6.28, ac fel y pennir yn y rhestr o gyfrifoldebau'r Gweinidogion (30 munud)**

- **Dadl ar Ein Cadw'n Ddiogel – Adroddiad yr Adolygiad o Ddiogelu Plant sy'n Agored i Niwed (60 munud)**

- **Ail ddadl ar gynnig o dan Reol Sefydlog 31 gan Huw Lewis AC (45 munud)**

Mae Rheol Sefydlog 31 yn caniatáu i Aelodau Cynulliad, heblaw Gweinidogion, wneud cynigion ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

Cafodd cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cefnogi mewn egwyddor ddeddfwriaeth i ddiwygio'r Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol i'w gwneud yn ofynnol bod Meddygon Teulu yn darparu adolygiad blynyddol o iechyd plant sy'n derbyn gofal ei dderbyn yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Mawrth 2006.

- **Y ddadl fer (30 munud)**

**Dydd Mawrth 13 Mehefin 2006**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (120 munud)**

- **Dadl am Adolygiad y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau o'r Polisi Gwyddoniaeth (60 munud)**

**Dydd Mercher 14 Mehefin 2006**

- **Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**

- **Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (30 munud)**

- **Datganiad gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adolygiad y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio o Gamddefnyddio Sylweddau (30 munud)**

- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (20 munud)**

- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Adrannau 76B a 76E Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975 fel y diwygiwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2006 i Brif Weinidog Cymru (15 munud)**

- **Dadl ynghylch yr Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Datblygu Cynaliadwy (60 munud)**

- **Y ddadl fer (30 munud)**